# Dosbarth Ffrydlas

Croeso i ddosbarth Ffrydlas ac i ddechrau blwyddyn ysgol arall.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd llawer o gyfleoedd i dyfu a dysgu, a bydd pob un ohonom a disgwyliadau uchel ohonom ein hunain. Fel eich athrawes, byddaf yn disgwyl i chi weithio mor galed ag sy'n bosib er mwyn bod y gorau rydych yn gallu bod. Bydd gen i dargedau i'w cyrraedd fy hun er mwyn gallu bod yr athro gorau y gallaf i fod. Mae gwyddonwyr wedi profi mae'r unig ffordd i ddysgu a dod yn fwy deallus yw drwy drio pethau newydd, gweithio'n galed, gwneud llawer o gamgymeriadau a hyd yn oed methu! Rhaid wedyn dderbyn adborth a dysgu ohono wrth symud ymlaen. **Cofiwch hyn – y camgymeriad gwaethaf all neb wneud yw bod gormod o ofn gwneud camgymeriad!**

Ychydig o wybodaeth ddefnyddiol:

- Thema – 'O am Fyd Rhyfeddol'
- Addysg Gorfforol – Dydd Mercher ( **RHAID** cael dillad i newid – dim cit = dim cymryd rhan).
- Nofio – bore Llun (dyddiad cychwyn i ddilyn)
- Gwaith cartref – gosodir 3 neu 4 o dasgau yn ymwneud a'r thema bod tymor – croeso i'r plant gwblhau unrhyw nifer ohonynt. Gall rhai ddewis gwneud 1 tra bydd eraill eisiau cwblhau 4!
- Darllen – mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i ddatblygiad darllen os yw rhieni/gwarcheidwad yn gwrando/trafod darllen gyda'u plant. Hoffwn i bob plentyn dreulio o leiaf 10 munud yn darllen gyda/i oedolyn bob nos, a chofnodi eu datblygiad.
- Tablau/Amser – dylai plant ymarfer tablau adref yn gyson. Mae dysgu dweud yr amser yn heriol i lawer o blant felly byddai'n gymorth petai ymarfer cyson adref.

*Welcome to Ffrydlas class at the beginning of another school year.*

*This year brings us all many opportunities to grow and learn together. We are all being challenged to have high expectations for ourselves. As your teacher, I will expect you to work as hard as you can in order to be the best that you can be. I will also have goals and targets for myself, so that I can be the best teacher that I can be. Scientist have proved that the only way to learn and become more intelligent is to try something new and work really hard at it, make lots of mistakes, and even fail! You then need to respond to feedback, learn from it and move on.* ***Remember – the worst mistake anyone can make is to be too afraid to make one!***

*Some useful information:*

- *Topic – O What a Wonderful World*
- *Physical Education – Wednesday (children MUST have kit to change into – no kit = not taking part.)*
- *Swimming – Monday morning ( starting date to follow)*
- *Homework – 3 or 4 tasks associated with the class topic will be set each term – pupils are welcome to complete any number of the tasks. Some might choose to complete 1, while others choose to complete all 4!*
- *Reading – it makes a huge difference to the development of a child's reading if parents/guardians listen to/discuss reading with their child. I would encourage reading with an adult every night for at least 10 minutes, and record their progress.*
- *Times tables/Telling the time – children should practise their times tables at home regularly. Telling the time has become challenging for many children, so it would help if they learn and practise at home regularly.*